Tudalen Dewisiadau

Mae clicio ar y botwm sydd a llun sbaner arno yn mynd a chi i'r dudalen **Dewisiadau.**

Ar ôl newid y dewisiadau, gallwch glicio ar **Diweddaru** i ddychwelyd i'r brif sgrin. Bydd hyn yn gwireddu eich newidiadau yn syth, bydd hefyd yn arbed eich dewisiadau gan sicrhau y byddant yn ymddangos y tro nesaf i chi ddefnyddio'r rhaglen.

Bydd clicio ar y botwm **Yn Ôl** (ar ochr dde gwaleod y sgrin **Dewisiadau**) yn hytrach na'r botwm **Diweddaru** yn dileu unrhyw newidiadau a wneir ganddoch i'r dewisiadau.

Mae nifer o'r dewisiadau a restrir ar y dudalen yn hawdd eu deall o'r disgrifiadau byr a geir yno, serch hynny, mae cymorth ychwanegol yma ar gyfer rhai o'r nodweddion.

Mae'n bosib na fydd yr holl opsiynau a restrir yma ar gael ar eich disg, gan fod y canllawiau hyn yn berthnasol i nifer o'n adnoddau.

Sgrin Lawn

Mae'r rhaglen hon yn rhedeg ar sgrin lawn eich cyfrifiadur gan sicrhau eich bod yn gweld y gweithgareddau i gyd ar eu maint mwyaf.

Serch hynny, mae'n bosib na fydd hyn yn addas ar gyfer rhai defnyddwyr; yn benodol, fe all anghytuno gyda meddalwedd rhai bryddau gwyn rhyngweithiol.

Bydd dad-dicio'r opsiwn hwn yn atal y rhaglen rhag rhedeg ar sgrin lawn, bydd y rhaglen felly yn cael ei chanoli o fewn yr ardal arddangos arferol, wedi'i hamgylchynu gan forder du.

Clicio a Glynu

Bydd rhai defnyddwyr – yn enwedig plant iau – yn cael trafferth ddefnyddio'r dull 'Llusgo a Gollwng' y llygoden, a ddefnyddir gyda rhai o'r gweithgareddau ar y ddisg.

Bydd ticio'r opsiwn hwn yn lansio dull newydd 'Clicio a Glynu' o ddefnyddio'r llygoden, ar gyfer y gweithgareddau hynny, mae'n debygol y bydd plant yn ei weld yn haws i'w drin:

Llusgo a Gollwng: Clicio ar y gwrthrych, a pharhau i bwyso ar fotwm y llygoden tra'n symud cyrchwr y llygoden i'r man priodol. Gollwng botwm y llygoden i ollwng y gwrthrych.

Clicio a Glynu: Clicio ar y gwrthrych yna gollwng botwm y llygoden. Bydd y gwrthrych yn glynu i gyrchwr y llygoden a'i ddilyn o amgylch y sgrin. Clicio eto er mwyn gollwng y gwrthrych yn y man priodol.

Cyrchwr Mawr

Bydd y rhaglen hon yn defnyddio cychwr llygoden mwy na'r arfer fel bod plant yn ei chael hi'n haws i'w weld.

Fe all hwn anghytuno â rhai enghreifftiau o feddalwedd hygyrchedd anghenion arbennig; bydd diffodd yr opsiwn hwn yn sicrhau fod cyrchwr llygoden arferol Windows yn cael ei ddefnyddio.

Dangos y Cefndiroedd

Bydd y gweithgareddau ar y ddisg hon yn cael eu dangos ar gefndiroedd lliwgar.

Os yw'r opsiwn hwn heb ei dicio, bydd yr holl weithgareddau ar y ddisg yn cael eu chwarae ar gefndir plaen gwyn. Fe all hyn helpu plant sydd â amhariad gweledol neu i facsimeiddio'r cyferbyniad ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.

Hyd y Sesiwn

Os ydych chi'n defnyddio'r nodwedd mewngofnodi ar y ddisg hon (gweler **Grŵp Defnyddwyr**), yna gellir defnyddio'r opsiwn hwn er mwyn gosod hyd y sesiwn mewn munudau. Bydd yr amserydd yn dechrau pan fydd defnyddiwr yn mewngofnodi i ddechrau ei sesiwn, ac yn dod i ben gyda'r neges 'Mae dy amser ar ben!' a bydd y defnyddiwr yn cael ei all-gofnodi. Bydd clicio'r llygoden yn mynd a nhw yn ôl i'r rhestr enwau.

Mewn dosbarth mae'r nodwedd hon yn sicrhau y bydd plant yn gwybod pryd mae hi'n amser i roi tro i blentyn arall ar y cyfrifiadur.

Os yw'r amserydd wedi'i osod i 0 – ceir sesiwn ddiddiwedd.

Grŵp Defnyddwyr

Mae'r nodwedd hon yn eich galluogi i restru enwau ac eiconau ar gyfer pob defnyddiwr er mwyn i ddefnyddwyr ddewis eu enw o'r rhestr pan yn mewngofnodi. Mae gosod hwn ar 'Dim' yn diffodd y nodwedd mewngofnodi. Gweler yr adran Defnyddwyr a Grwpiau am fwy o ganllawiau gosod grwpiau a defnyddwyr.

Diffodd Troi'r Dudalen

Bydd rhai cyfrifiaduron hyn yn cael trafferth gyda'r animeiddiadau troi'r tudalen. Ticiwch y blwch er mwyn ei ddiffodd.

Llunio Rhif 5

Mae rhai ysgolion yn defnyddio ffyrdd gwahanol o lunio'r rhif 5, felly ar y ddisg hon gellir dewis rhwng 3 steil gwahanol o lunio'r rhif. Bydd hyn yn sicrhau fod y steil a ddefnyddir ar y ddisg yn cydymffurfio ar modd o lunio rhif 5 a ddefnyddir yn y dosbarth.

- *Steil 1* – top-chwith i'r gwaelod chwith, wedyn y linell dop ar draws.
- *Steil 2* – y linell dop ar draws, wedyn top-chwith i'r gwaelod chwith.
- *Steil 3* – top-dde i'r gwaelod-chwith, un llinell ddi-dor.

©2005 B-DAG Ltd.